COFNOD O GYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 19 MAWRTH 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | J E Pratt | M J Williams | I Williams |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | C Davies | M J Evans | W J Kendall |
| G Walter | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P W Jenkins ac M J Kearn

Datganiadau o Fuddiant
Dim

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet dros yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| | |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jen Sparrow | Rheolwr Cytundeb Gwastraff a Strydoedd Glanach |
| | |
| James McMahon | Prif Ymgynghorydd – Eunomia Research and Consulting |
| Manon Bataille | Prif Ymgynghorydd – Eunomia Research and Consulting |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |

## 63. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 dyddiedig 19 Mehefin 2023, Cyfarfod Arbennig 25 Gorffennaf 2023, a 22 Ionawr 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Mawrth 2024 |

## 64. Opsiynau Gwasanaethau Gwastraff ar gyfer y Dyfodol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:<br><br>Trafododd y Pwyllgor mewn manylder y tri opsiwn darparu gwasanaeth yn yr adroddiad a chanfyddiadau'r adroddiad gan Eunomia a gomisiynwyd, ar opsiynau ailgylchu a gwastraff yn y dyfodol o Ebrill 2026 ymlaen. Wedi clywed gan Swyddogion ac ymgynghorwyr Eunomia, roedd gan yr Aelodau ddiddordeb i ddeall mwy ynghylch yr opsiwn o Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol (LATCo), prun ai a oedd yn ymarferol bosib ac a fyddai o fudd. Trafodwyd y gallu i greu cronfeydd o fewn LATCo a phrun ai a fyddai cynnig pecyn casglu gwastraff fforddiadwy ar gyfer busnesau yn gallu darparu'r potensial i gynnig yr un cynllun pensiwn a thelerau ac amodau â staff Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, trwy wneud iawn am y gost trwy'r ffrydiau refeniw ychwanegol posib. Mynegodd Aelodau bryderon ynghylch sicrhau na ddylai staff fod dan unrhyw anfantais o ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.<br><br>1. Tra ein bod yn deall nad oedd yna unrhyw sicrwydd o lwyddiant ac na fyddai'r model a ddewiswyd yn dod yn weithredol nes 2026, ac na fyddai felly yn ateb cyflym i'r sefyllfa, argymhellodd y Pwyllgor y dylid archwilio model LATCo ymhellach gyda'r Awdurdod yn edrych ar sut y gellid ei ddefnyddio a'i dyfu dros y blynyddoedd oedd i ddod, ac wrth i'r LATCo ddatblygu, byddai hyn yn helpu i ddarparu rhan o'r datrysiad i'r broblem tymor hir o anawsterau ariannol blynyddol.<br><br>2. Yn ogystal, trafododd yr aelodau'r canfyddiadau mewn perthynas â'r asesiad ansoddol a'r sefyllfa yn fewnol. Gan nodi bod yr asesiad wedi adnabod bod cyflwr y farchnad yn ffafriol ar hyn o bryd gyda thebygolrwydd isel o risg uchel o ran gweithredu a rhoi pethau ar waith heb unrhyw wahaniaeth yn safon y gwasanaeth, nodwyd hefyd bod yna risg ariannol yn seiliedig ar gyfraniadau pensiwn, ond bod cyfle hefyd i reoli, siapio a datblygu'r gwasanaeth hwnnw. Ar y sail hwnnw, argymhellodd y Pwyllgor y dylid archwilio dod â'r gwasanaeth casglu gwastraff i gael ei ddarparu'n fewnol mewn mwy o fanylder. |

| | |
|---|---|
| | 3. Cytunodd yr Aelodau eu bod yn chwilio am y penderfyniad gorau a'r cynllun gorau ar gyfer y Cyngor a'i breswylwyr, ac er mwyn cyfrannu at y penderfyniad hwn, argymhellodd y Cyngor y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cabinet naill ai gyda'r argymhellion, neu yn fuan wedyn, gan gynnwys astudiaeth achos o arfer gorau lle profwyd y mathau yma o weithrediadau a'u bod yn gweithredu'n llwyddiannus, er mwyn dangos sut y gallent hwy hefyd fod â'r potensial i weithio i Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Mawrth 2024 |

## 65. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, nodwyd Argymhellion Monitro Taflen Weithredu yn Atodiad B a nodwyd y dylai'r FWP, Argymhellion Monitro Taflen Weithredu ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor gael eu hadrodd arnynt yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor gais am ddiweddariad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ffurf Adroddiad Gwybodaeth, ac wedi i hwn gael ei dderbyn nodwyd y dylai'r Aelodau ystyried a phenderfynu a ydynt yn dymuno ychwanegu eitem at y Flaenraglen Waith ar gyfer craffu mewn cyfarfod yn y dyfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Mawrth 2024 |

## 66. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Mawrth 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:51.